# Toiledu

Wrth hyfforddi plentyn niwrowahanol i ddefnyddio'r poti neu'r toiled, bydd angen strwythur ychwanegol a chiwiau gweledol yn ogystal â gwobr bosibl nad yw'n ymwneud â rheolau cymdeithasol.

Mae'n well gan lawer o blant gadw at drefn a fydd yn rhoi sicrwydd iddynt a gadael iddyn nhw ragweld beth fydd yn digwydd nesaf. I sefydlu trefn ar gyfer defnyddio'r poti/mynd i'r toiled, bydd angen i chi ddefnyddio ymadrodd neu arwydd bod angen i'r plentyn ddefnyddio'r poti/toiled – dylai hwn fod yr un fath â'r un a ddefnyddir gartref. Gallai fod ar ffurf carden â llun o'r poti arno, er enghraifft, neu dewiswch ymadrodd (gwnewch yn siŵr fod pawb yn hapus i'w ddefnyddio gyntaf) megis 'amser poti' neu 'amser toiled'.

Bydd aml i ddamwain – peidiwch â dwrdio'r plentyn na thalu gormod o sylw. Glanhewch e, byddwch yn bositif a rhowch gynnig arall arni.

Cyn gynted ag y bydd y plentyn yn gwneud pi-pi neu pw yn y toiled/poti, rhowch wobr iddo. Yn achos rhai plant, bydd clod megis 'da iawn' neu seren ar siart yn ddigon boddhaol. Ond yn achos plant nad yw'n ymateb i'r math hwn o glod, efallai y bydd angen gwobr gorfforol, megis gwneud gweithgaredd byr y maent yn ei fwynhau.

Wrth i amlder y llwyddiant a'r gwobrwyo gynyddu, bydd y plentyn yn dysgu'r hyn a ddisgwylir ganddo. Bydd plant sy'n medru cyfathrebu'n dweud neu'n dangos i chi pan mae angen y poti/toiled arnyn nhw. Yn achos plant eraill, efallai y bydd gofyn parhau i annog y plentyn i ddefnyddio'r toiled/poti ar adegau rheolaidd nes ei fod yn medru cyfathrebu'r angen wrthoch chi.

Mae'n eithaf pwysig i ddefnyddio taflen luniau, a cheisiwch ddefnyddio'r un lluniau â'r rhieni a'r cynhalwyr. Dylid argraffu lluniau neu ddelweddau i gynrychioli trefn y digwyddiadau. Dylid cadw'r daflen wrth ymyl y toiled/poti lle gall y plentyn ei gweld yn glir.


Gallwch greu a lawrlwytho cynlluniwr lluniau yma ar gyfer hyfforddiant toiled/poti am ddim yma:

**www.NiwrowahaniaethCymru.org/cy/rhieni-a-gofalwyr/gwybodaeth-ar-gyfer-plentyn-awtistig/cardiau-lluniau-plant/**

tynnu'r trowser i lawr




Tynnu pants/ nicyrs i lawr




eistedd ar y toiled




sychu




Tynnu pants i fyny



tynnu'r trowser i fyny



Fflysio toiled



golchi dwylo

